

Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllwchaearn** a gynhaliwyd ar nos Iau 16eg o Fawrth yn Neuadd Caerwedros neu ar Zoom

**YN BRESENNOL:** Cyngorydd Gareth Iwan (Cadeirydd) Cyngorwyr Meleri Richards, Gill Hearne, a'r Cyngorydd Sir Matthew Vaux

**(7.30yh-8.45yh)**

Minutes of **Llanllwchaearn Community Council** Meeting held on Thursday the 16<sup>th</sup> of March at 7.30pm at Neuadd Caerwedros / Zoom.

**PRESENT:** Councillor Gareth Iwan (Chair) Councillors Meleri Richards, Gill Hearne, and County Councillor Matthew Vaux

**(7.30-8.45pm)**

- 98 Ymddiheuriadau**  
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngorydd Silyn Roberts.
- 99 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**  
106.06.2 Datganodd y Cyngorydd Matthew Vaux fuddiant sy'n rhagfarnu yn y mater yma.
- 100 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 16eg o Chwefror**  
  
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg o Chwefror yn cofnod cywir.
- 101 Materion yn codi**  
29 / 89.03 Diffibrilwr Maenygroes-Bydd y Cyng. Vaux yn trefnu rhoi'r bocsi i fyny o fewn y wythnos nesaf.
- 12.10 Dorri'r llwybrau.  
Cyngorwyr i gadw golwg arno o mis Ebril ymlaen pan fydd tywydd sych.
- 45.03 Diweddariad Parc Bro Hafan Mae'r Cais wedi cael ei chyflwyno i'r Loteri Cendlaethol, gall cymryd 12 wythnos i ni cael penderfyniad.

- 98 Apologies**  
Councillors Silyn Roberts had sent his apologies as he was unable to attend.
- 99 Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**  
  
106.06.2 Councillor Matthew Vaux declared a prejudicial interest in this matter.
- 100 To confirm the minutes of the meeting held on 16<sup>th</sup> of February**  
  
The minutes of the meeting held on 16<sup>th</sup> of February were confirmed as a true record.
- 101 Matters arising**  
29/ 89.03 Maenygroes Defibrillator – Cllr Vaux will arrange to put the new cabinet up within the next few week.
- 12.10 Cut the footpath/bridleways  
Councillors to keep an eye on the footpaths / bridleways from April onwards when there should be dry weather.
- 45.03 Bro Hafan Park Update –  
The application has been submitted to the National Lottery, it could take 12 weeks before we receive a decision.

83.01 Diolch yn fawr iawn i'r Cynghorwyr Gareth Ioan, Meleri Richards a Matthew Vaux am cwrrdd y prynhawn yma i drafod y llwybrau troed / llwybrau ceffylau sydd gennym yn y Gymuned. Rhannwyd syniadau am greu taflen wybodaeth boed hynny'n electronig neu'n gopi papur. Bydd y Cynghorydd Meleri Richards yn ceisio cael wybodaeth am ddylunwyr ac yn adrodd nôl i'r Cyngor. **CYTUNWYD** trefnu cyfarfod i drafod gwahanol lwybrau / pa mor hir y byddent yn eu cymryd i cerdded.

83.01 Thank you to Councillors Gareth Ioan, Meleri Richards and Matthew Vaux who met this afternoon to discuss the footpaths / bridleways we have within the Community. Ideas were shared about creating an information leaflet whether it be electronically or a paper copy. Councillor Meleri Richards will find more information about possible designers and feedback to the Council. It was **AGREED** to arrange a meeting to discuss various routes / how long they would take to walk.

**102 Adroddiad y Cynghorydd Sir**

**102 County Councillor's Report**

Grant wrth Llywodraeth Cymru – cefnogaeth i ail wneud tŷ. Bydd y grant ar gyfer tai sydd wedi bod yn wag am gyfnod hirdymor (12 mis) neu fwy. Un amod y grant fyddai y byddai'n rhaid i'r meddiannydd fyw ynddo am fwy na 5 mlynedd. Mae £25,000 ar gael ar gyfer y cynllun hwn.

Grant from Welsh Government – support for renovating a house. The grant will be for houses that have been empty for a long term period (12 months) or more. One condition of the grant would be that the occupier would have to live in it for more than 5 years. There is £25,000 available for this scheme.

Mae 'na bapur arall hefyd y byddaf yn ei gyflwyno i'r cabinet - gobeithio defnyddio'r premiwm o 25% o ail gartref i allu cefnogi prynwyr tai i gael morgais.

There is also another paper that I will be presenting to cabinet – we hope to use the 25% premium from second home to be able to support home buyers to get a mortgage.

**103**

**Cyllid**

Opening Balance - £7,042.57  
**CYTUNWYD** i dalu'r canlynol;  
103.01 Cymorth Cynllunio - £40.00  
103.02 Aelodaeth Un Llais Cymru 23/24 - £187  
103.03 Cyflog Clerc Mawrth – 227.71  
103.04 HMRC Mawrth - £4.20  
103.05 Anfoneb Neuadd Caerwedros - £185.00  
103.06 Harry Vaux - £380.00

**Balans wrth gau - £ 6018.66**

**Adolygiad o'r Gyllideb –**  
**CYTUNWYD** ond mae Cynghorwyr wedi gofyn i'r Clerc nodi mewn coch ar yr adroddiad lle mae gorwario wedi bod. Clerc i ddiwygio adroddiad ac ail-anfon allan at Gynghorwyr.

**103**

**Finance**

Opening Balance - £7,042.57  
It was **AGREED** to pay the following;  
103.01 Planning Aid Wales - £40.00  
103.02 One Voice Wales Membership 23/24 - £187  
103.03 Clerk Salary March – 227.71  
103.04 HMRC March - £4.20  
103.05 Caerwedros Hall Invoice - £185.00  
103.06 Harry Vaux - £380.00

**Closing Balance - £ 6,018.66**

**Review of the Budget** - It was **AGREED** but Councillors have asked the Clerk to note in red on the report where there has been overspent. Clerk to amend report and re-send out to Councillors.

<p><b>104</b></p> <p><b>Ceisiadau Cynllunio</b></p> <p>Dim ceisiadau.</p>	<p>104</p> <p>Planning Applications</p> <p>No applications.</p>
<p><b>105</b></p> <p><b>Ceisiadau am gymorth ariannol</b></p> <p>105.01 Pwll Nofio Aberaeron – CYTUNWYD i gyfrannu £100.00. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr eu bod wedi gorwario ar y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer S137, roedd y Cynghorwyr o'r farn oherwydd tanwario, costau rhedeg cyfleuster o'r fath a defnydd y gymuned o'r Pwll Nofio y dylent gyfrannu.</p> <p>105.02 Pencampwriaeth Aredig Cymru - nodi.</p>	<p>105</p> <p>Request for financial assistance</p> <p>105.01 Aberaeron Swimming Pool – it was AGREED to contribute £100.00. The Clerk advised Councillors that they had overspent on the allocated budget for S137, Councillors felt that due to underspent in other areas within the budget, the running cost of such a facility and the usage members of the Community have from the Pool they should contribute.</p> <p>105.02 All Wales Ploughing Championships – noted.</p>
<p><b>106</b></p> <p><b>Gohebiaeth</b></p> <p>106.01 Penodi Archwilydd mewnol ac allanol ar gyfer Cyfrifon 2022/23 CYTUNWYD penodi Mr Iori Evans fel yr archwilydd mewnol ac Archwilio Cymru fel yr archwilydd allanol.</p> <p>106.02 Adroddiad Adran 6 Deddf Amgylchedd 2016. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn paratoi'r adroddiad hwn. CYTUNWYD derbyn yr adroddiad.</p> <p>106.03 Adolygu Asesiad Risg – CYTUNWYD a dderbyniwyd.</p> <p>106.04 Adolygu Cofnod Asedau Mae'r Cynghorwyr wedi gofyn i'r clerch ofyn am eglurhad am eitemau sydd wedi'u rhestru ar y gofrestr asedau. A oes angen i'r Cyngor ystyried dad-werthfawrogi asedau / gwerth adnewyddu'r asedau. Clerc i gysylltu â Un Llais Cymru i gael cyngor.</p> <p>106.05 Polisi Cyfryngau Cymdeithasol - Diolch i'r Cynghorydd Gareth Iwan sydd wedi addasu'r polisi cyfryngau cymdeithasol. CYTUNWYD i dderbyn y polisi erbyn hyn.</p> <p>106.06 Gwanwyn Glân 2023 Menter gan Cadwch Gymru'n Daclus rhwng y 17eg o Fawrth a'r 2il o Ebrill. Mae gan y Cyngor Cymuned offer codi sbwriel eisoes ac mae wedi paratoi posteri gwybodaeth. Bydd y Cynghorydd</p>	<p>106</p> <p><b>Correspondence</b></p> <p>106.01 106.01 To appoint an internal and external auditor for the 2022/23 Accounts. It was AGREED to appoint Mr Iori Evans as the internal auditor and Audit Wales as the external auditor.</p> <p>106.02 Section 6 Report – Environment Act 2016 The Clerk was thanked for her work in preparing this report. It was AGREED to accept the report.</p> <p>106.03 Review of Risk Assessment - AGREED and accepted.</p> <p>106.04 Review of Asset Register – Councillors have asked the clerk to seek clarification on items listed on the asset register. Does the Council need to consider de-appreciation of the assets / renewal value of the assets. Clerk to contact One Voice Wales for advice.</p> <p>106.05 Social Media Policy -Thank you to Councillor Gareth Iwan who has adapted the social media policy. It was AGREED to now accept the policy.</p> <p>106.06.1 Spring Clean 2023 – initiative from Keep Wales Tidy is between the 17<sup>th</sup> of March and 2<sup>nd</sup> of April. The Community Council already has some litter picking equipment and has prepared information posters. Councillor</p>

Meleri Richards yn anfon copi at y Clerc, felly bydd modd ei rannu ar y wefan a'r dudalen Facebook. Mae 'na lot o daflenni / posteri sbâr hefyd, CYTUNWYD y bydd Cynghorwyr yn eu dosbarthu dros wyliau'r Pasg.

106.06.2 Fe nododd Cynghorwyr eu pryderon bod y Cyngor Sir yn tynnu'r biniau gwastraff o draeth Cei Newydd, rhywbeth fydd yn effeithio ar bob ymwelydd. Datganodd y Cynghorydd Matthew Vaux ddi-ddordeb ar y mater hwn. CYTUNWYD y bydd y Cynghorydd Gareth Iwan yn drafftio llythyr i'w anfon i'r Cyngor Sir. Bydd Clerc wedyn yn anfon y llythyr i mewn drwy gyfrwng Clic i sylw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Prifffyrdd a Phrif Weithredwr.

106.07 Ymateb Terfynau Cyflymder - Mae'r ymateb ynglŷn â'r terfynau cyflymder wedi'i nodi. Mae'r Cynghorydd Vaux wedi derbyn sawl cwyn am barcio ar y ddwy ochr i'r ffordd i lawr yn Llanina (lôn Cei Bach) Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau y bydd y lleoliad yma yn cael ei edrych arno yn ystod yr adolygiad traffig nesaf.

106.08 Cwilt360 – gwefan ar gyfer cymuned lleol. Mi fydd digwyddiadau lawnsio yn cael ei chynnal yn nifer o neuaddau o fewn cymunedau lleol – Llanarth, Cei Newydd, Caerwedros, Pontgarreg, Sarnau a Talgarreg. Dyddiad cyntaf yw 22.04.23.

106.09 Cyfle i rannu syniadau ar gynllun dementia – nodi

106.10 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar leoliad ysbyty gofal brys a wedi'i gynllunio newydd – nodi

Meleri Richards will send a copy to the Clerk so it can be shared on the website and Facebook page. There are also a lot of spare leaflets /posters, it was AGREED that Councillors will distribute them over the Easter holidays.

106.06.2 Councillors noted their concerns that the County Council are removing the waste bins from New Quay beach, something that will affect all visitors. Councillor Matthew Vaux declared an interest on this matter. It was AGREED that Councillor Gareth Iwan will draft a letter to send to the County Council. Clerk will then send the letter in via Clic for the attention of the Corporate Lead Officer for Highways and Chief Executive.

106.07 Speed Limits Response – the response regarding the speed limits has been noted. Councillor Vaux has received several complaints about parking on both side of the road down in Llanina (Cei Bach lane) The County Council have confirmed that this location will be looked at during the next traffic review.

106.08 Cwilt360 - website for a local community. Events will be held to launch the website in a number of halls within local communities – Llanarth, New Quay, Caerwedros, Pontgarreg, Sarnau and Talgarreg. First date is 22.04.23.

106.09 An opportunity to share ideas on a dementia plan – noted.

106.10 Launch of public consultation on location of new planned and urgent care hospital – noted.

107

**Materion i adrodd / hysbysiadau**

Cymanfa Ganu – Sul y Blodau, 02.04.23 yn Capel Maenygroes. Clerc i rhannu'r manylion ar tudalen Facebook y Cyngor Cymuned

107

**Matters to report / events**

Palm Sunday - 02.04.23 at Maenygroes Chapel. Clerk to share details on Community Council Facebook page

108	<b>Materion i'w drafod ar agenda'r cyfarfod nesaf</b>	108	Matters to discuss on next month's agenda
	Cofnod Asedau		Asset Register
109	<b>Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf</b> Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos lau'r 20fed o Ebrill yn Neuadd Caerwedros / Zoom am 7.30yh.	109	Arrangement for next meeting The next meeting will be held on Thursday 20 <sup>th</sup> of April in Caerwedros Hall / Zoom at 7.30pm



